**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 ar ei ffurf ddrafft**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i cyflwynir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023* ar ei ffurf ddrafft. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

## RHAN 1

### Disgrifiad

1. Mae Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 ar ei ffurf ddrafft yn cynnig diwygiadau i gategorïau'r personau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (“y Cyngor”) fel y nodir yn Nhabl 1 o baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

2. Bydd y Gorchymyn hefyd yn diwygio Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016. Mae'r atodlenni hyn yn nodi cymwysterau gweithwyr ieuenctid a chymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid.

### Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim.

### Cefndir deddfwriaethol

4. Gwneir Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 ar ei ffurf ddrafft gan arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”).

5. Mae adran 5(1) o Ddeddf 2014 yn rhoi pŵer gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru roi neu osod ar y Cyngor unrhyw swyddogaethau ychwanegol sy'n briodol yn eu barn nhw. Mae adran 10 o Ddeddf 2014 yn darparu bod person yn gymwys i'w gofrestru os yw'n bodloni'r amodau a nodir yn adran 10. Mae adran 10(2)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, ofynion ar gyfer cofrestru dros dro. Mae adran 12(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch y ffioedd a all fod yn daladwy mewn cysylltiad â chofrestru. Mae adran 13(1) o Ddeddf 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth bellach ynghylch y gofrestr a chofrestru sy'n briodol neu'n hwylus yn eu barn nhw. Mae adran 14 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwasanaethau na allant gael eu darparu gan berson mewn ysgol oni bai bod y person hwnnw wedi ei gofrestru, ei fod yn athro cymwysedig a'i fod yn bodloni gofynion penodedig. Mae adran 47(1) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan Ddeddf 2014 yn cynnwys y pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n angenrheidiol ym marn Gweinidogion Cymru a gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Mae paragraff 2(1) o Atodlen 2 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn, ychwanegu, diwygio neu ddileu categori cofrestru neu'r disgrifiad o gategori.

6. Mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol.

7. Mae adran 47(3) o Ddeddf 2014 yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniadau negyddol yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adrannau 10(2)(b), 13(1) a 14 o Ddeddf 2014. Mae adran 47(2)(a) o Ddeddf 2014 yn darparu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i orchymyn a wneir o dan adran 5 o Ddeddf 2014. Mae adran 47(2)(c) o Ddeddf 2014 yn darparu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 12 o Ddeddf 2014. Mae adran 47(2)(e) o Ddeddf 2014 yn darparu y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i Orchymyn a wneir o dan baragraff 2(2) o Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

8. O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, gall darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gael ei chyfuno yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. O ganlyniad, bydd y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r Gorchymyn hwn.

**Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

9. Diben y Gorchymyn drafft yw cau rhai bylchau yn y gofynion cofrestru presennol sy'n golygu bod y trefniadau rheoleiddio proffesiynol yn amrywio o fewn y gweithlu addysg yng Nghymru, hyd yn oed pan fo unigolion yn cyflawni rolau tebyg iawn.

10. Mae'r Gorchymyn drafft yn mynd i'r afael yn benodol ag athrawon a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol a sefydliadau ôl-16 arbenigol annibynnol, gan eu gwneud yn ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor. Mae hefyd yn cynnwys gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig a chyflogedig. Bydd hyn yn cynyddu mesurau diogelu drwy drefniadau cofrestru proffesiynol.

11. Mae hyn yn ymateb i argymhellion a wnaed gan Gomisiynydd Plant Cymru ac adroddiad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ar ysgolion preswyl. Mae'r newidiadau i'r categorïau gwaith ieuenctid hefyd yn mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.

12. Prif nod y Gorchymyn drafft yw atgyfnerthu'r mesurau diogelu sydd ar waith i amddiffyn plant, pobl ifanc a staff. Mae cofrestru yn rhoi llwybr i unigolion neu sefydliadau godi pryderon a sicrhau yr ymchwilir i'r pryderon hynny'n annibynnol.

13. Yn ogystal, bydd y Gorchymyn drafft yn rhoi mwy o gydraddoldeb i'r rhai sy'n gweithio mewn rolau tebyg ac yn sicrhau lefel o broffesiynoldeb ac ymddygiadau disgwyliedig yn y sector addysg brif ffrwd ac annibynnol, yn ogystal â gwaith ieuenctid. Mantais ychwanegol trefniadau cofrestru gorfodol yw y gall staff o bob rhan o'r sector addysg fanteisio ar amrywiaeth o adnoddau datblygu a hyfforddi a ddarperir drwy'r Cyngor.

14. Felly, mae'r Gorchymyn drafft yn gwneud y diwygiadau canlynol:

| **Categori** | **Diwygiadau** |
|---|---|
| Athro neu athrawes ysgol | Wedi ei ymestyn i sicrhau ei bod yn ofynnol i holl benaethiaid ysgolion a gynhelir, p'un a oes ganddynt gyfrifoldebau addysgu ai peidio, gofrestru |
| Gweithiwr ieuenctid | Wedi ei ymestyn i gynnwys gweithwyr ieuenctid cymwysedig cyflogedig (ynghyd â chofrestriad dros dro i'r rhai sy'n gweithio tuag at gyflawni statws gweithiwr ieuenctid cymwysedig) mewn unrhyw leoliad yng Nghymru. |
| Gweithiwr cymorth ieuenctid | Wedi ei ymestyn i gynnwys gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig cyflogedig (ynghyd â chofrestriad dros dro i'r rhai sy'n gweithio tuag at gyflawni statws gweithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig) mewn unrhyw leoliad yng Nghymru. |

15. Mae'r Gorchymyn drafft yn diwygio Tabl 1 o baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 er mwyn ychwanegu'r categorïau canlynol:

| **Categori** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Athro neu athrawes mewn ysgol annibynnol | Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) gwasanaethau athro neu athrawes annibynnol mewn neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru.<br><br>Gwasanaethau athro neu athrawes mewn ysgol annibynnol yw gwasanaethau a nodir felly mewn gorchymyn a wneir o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014. |
| Gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol | Person, ac eithrio athro neu athrawes mewn ysgol annibynnol, sy'n cefnogi (neu sy'n dymuno cefnogi) unrhyw un o'r gwasanaethau y nodir eu bod yn wasanaethau athro neu athrawes mewn neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru. |
| Athro neu athrawes mewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol | Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) gwasanaethau athro neu athrawes mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol mewn neu ar gyfer sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.<br><br>Gwasanaethau athro neu athrawes mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yw gwasanaethau a nodir felly mewn gorchymyn a wneir o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014. |
| Gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol | Person, ac eithrio athro neu athrawes mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol, sy'n cefnogi (neu sy'n dymuno cefnogi) unrhyw un o'r gwasanaethau y nodir eu bod yn wasanaethau athro neu athrawes mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol mewn neu ar gyfer sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru. |

16. Mae Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 yn nodi, yn Atodlenni 1 a 2, y cymwysterau y nodir eu bod yn gymwysterau gwaith ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid. Rhaid i weithiwr ieuenctid neu weithiwr cymorth ieuenctid feddu ar o leiaf un o'r cymwysterau hyn er mwyn bod yn gymwys i gofrestru â'r Cyngor.

17. Mae'r Gorchymyn drafft yn diweddaru'r rhestr o gymwysterau gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid yn yr Atodlenni. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gosod dyletswyddau ar y Cyngor i baratoi a chadw rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid y tu allan i'r Gorchymyn. Mae'r Cyd-bwyllgor Negodi ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymunedol yn cymeradwyo cymwysterau gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid a dyma'r cymwysterau y bydd angen eu cynnwys yn y rhestr a gedwir gan y Cyngor. Drwy baratoi a chadw'r rhestr, bydd y Cyngor yn ychwanegu cymwysterau newydd a gymeradwyir gan y Cyd-bwyllgor Negodi at y rhestr ac yn dileu unrhyw gymwysterau nad yw'r Cyd-bwyllgor Negodi yn eu cymeradwyo mwyach. Mae'r dyletswyddau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi gwybod i Weinidogion Cymru bob blwyddyn am unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r rhestrau yn y Gorchymyn, yn ei farn ef.

18. Bydd hyn yn cynnig ffordd strwythuredig o ddiweddaru'r rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid yn y Gorchymyn. Bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i nodi effaith y newidiadau i'r rhestr a ddelir gan y Cyngor, fel y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud. Dylai hyn sicrhau bod y rhestr yn cael ei diweddaru pan fo angen, fel y gall unigolion sydd â chymwysterau cymeradwy perthnasol gofrestru cyn gynted â phosibl.

**Ymgynghori**

19. Cyn gwneud gorchymyn o dan adran 5 o Ddeddf 2014, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n briodol yn eu barn nhw. Cyn gwneud gorchymyn o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n briodol yn eu barn nhw.

20. Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol dros gyfnod o 12 wythnos rhwng 1 Mawrth 2022 a 24 Mai 2022 a amlinellodd y newidiadau arfaethedig i gategorïau cofrestru, sef ychwanegu'r grwpiau canlynol:

- staff addysgu a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol
- gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cyflogedig nad ydynt yn gymwysedig neu sy'n gweithio mewn lleoliad nad yw'n ‘gorff perthnasol’
- y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol, a elwir hefyd yn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
- ymarferwyr sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer awdurdod lleol neu ar ei ran
- y rhai sydd ond yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach
- penaethiaid ac uwch-arweinwyr (gan gynnwys Prif Swyddogion Gweithredol) mewn rolau nad ydynt yn cynnwys addysgu mewn sefydliadau ôl-16 ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith.

21. Yn ogystal, aeth yr ymgynghoriad ati i geisio nodi'r newidiadau yr oedd angen eu gwneud i'r rhestrau cymwysterau gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid, sydd wedi'u cynnwys yn Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn 2016 ar hyn o bryd. Cynigiodd hefyd y dylai'r rhestr o gymwysterau gael ei chadw y tu allan i'r Gorchymyn fel y gellir ei diweddaru'n amlach.

22. Cafodd yr ymgynghoriad ei ddwyn i sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys ysgolion annibynnol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill fel Comisiynydd Plant Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yn ogystal, ymgysylltodd swyddogion â Chyngor y Gweithlu Addysg, Safonau Addysg Hyfforddiant, y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a'r sector gwaith ieuenctid ehangach, addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried.

23. Cafwyd 338 o ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion rydym wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft hwn.

24. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gofynnwyd am ddiffiniad cliriach o waith ieuenctid er mwyn rhoi eglurder i'r rhai y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru fel gweithwyr ieuenctid neu weithwyr cymorth ieuenctid heb gymhwyso. Mae angen gwneud llawer mwy o waith i ystyried diffiniadau a chytuno arnynt. Mae angen i'r gwaith hwn gyd-fynd â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i atgyfnerthu deddfwriaeth gwaith ieuenctid, yn unol ag argymhelliad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Felly, nid yw'r Gorchymyn drafft yn cynnwys gofyniad i weithwyr ieuenctid cyflogedig heb gymhwyso a gweithwyr cymorth ieuenctid cyflogedig heb gymhwyso gofrestru â'r Cyngor.

25. Ar ôl ystyried yn fanwl y ffordd orau o weithredu'r cynnig i ddileu'r rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid o Orchymyn 2016 a'i chadw mewn man arall, daethpwyd i'r casgliad nad yw paragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid ble y caiff y rhestr ei chadw.

26. Mae hyn yn golygu na all y rhestr o gymwysterau (a fyddai, yn ei thro, yn diffinio beth yw gweithiwr ieuenctid cymwysedig neu weithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig) gael ei newid heb ddiwygio'r Gorchymyn drwy'r weithdrefn ddeddfwriaethol.

27. Roedd ein cynigion gwreiddiol yn cynnwys trefniadau cofrestru gorfodol ar gyfer grwpiau ychwanegol yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 gorfodol. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y mater ymhellach, teimlwn nad yw'n ymarferol bwrw ymlaen â'r opsiynau hyn ar hyn o bryd. Rhaid i ni wneud mwy o waith i ddiweddaru'r categorïau ac ni allwn wneud hyn o fewn amserlen y Gorchymyn drafft hwn. Yn ogystal, nid oes modd cadarnhau pwy yw'r darparwyr dysgu seiliedig ar waith na sut y cânt eu hariannu'n gyhoeddus, gan nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw mewn man canolog. Efallai y byddwn yn ystyried y maes hwn yn fanylach yn y dyfodol os bydd y sefyllfa'n newid.

28. Caiff ymgynghoriad arall ei gynnal nawr rhwng 9 Rhagfyr 2022 ac 17 Chwefror 2023 a bydd y safbwyntiau a gesglir yn helpu i lunio'r Gorchymyn terfynol. Caiff y ffioedd sy'n gysylltiedig â chofrestru eu trafod yn yr ymgynghoriad hwn hefyd.

29. Mae'r ymgyngoriad cyntaf ar gael i'w weld yn: https://llyw.cymru/categoriau-cofrestru-newydd-ar-gyfer-cyngor-y-gweithlu-addysg.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

30. Un o nodweddion allweddol sawl proffesiwn yw gofyniad i gofrestru â chorff proffesiynol sy'n pennu ac yn cynnal safonau proffesiynol, yn cadw hyder y cyhoedd ac yn dangos ymrwymiad cyffredin i broffesiynoldeb. Cyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor) sy'n rheoleiddio safonau proffesiynol yn y gweithlu addysg yng Nghymru.

31. Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn nodi'r gofynion i ymarferwyr gofrestru yn y categori neu'r categorïau cofrestru ar gyfer y rôl y maent yn ei chyflawni. Mae Atodlen 2 o Ddeddf 2014 yn nodi'r categorïau presennol o weithwyr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor:

| **Categori** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Athro neu athrawes ysgol | Person sy'n athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig ac sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) unrhyw wasanaethau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 14 mewn ysgol. |
| Gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol | Person sy'n bodloni'r gofynion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 14(1)(a)(ii) ac sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) unrhyw wasanaethau a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran honno mewn ysgol. |
| Athro addysg bellach | Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) addysg (fel y'i diffinnir gan adran 140(3) o Ddeddf 2002) mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru. |
| Gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach | Person, ac eithrio athro neu athrawes addysg bellach, sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu), yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau a ddisgrifir yn adran 16(2) mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru. |
| Gweithiwr ieuenctid | Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) gwasanaethau datblygu ieuenctid ac sy'n—<br>(a) meddu ar o leiaf un o'r cymwysterau a nodir fel cymwysterau gweithwyr ieuenctid mewn gorchymyn a wneir o dan baragraff 2, neu'n<br>(b) bodloni gofynion eraill a nodir mewn gorchymyn o dan y paragraff hwnnw. |
| Gweithiwr cymorth ieuenctid | Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) gwasanaethau datblygu ieuenctid ac sy'n– |

| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| | (a) meddu ar o leiaf un o'r cymwysterau a nodir fel cymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid mewn gorchymyn a wneir o dan baragraff 2, neu'n<br>(b) bodloni gofynion eraill a nodir mewn gorchymyn o dan y paragraff hwnnw. |
| Ymarferydd dysgu seiliedig ar waith | Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) gwasanaethau ymarferydd dysgu seiliedig ar waith. |

32. Nodwyd sawl bwlch a/neu amryfusedd yn y gofyniad i'r gweithlu addysg gofrestru â'r Cyngor ac arweiniodd hyn at ymgynghoriad â'r sector a'r Gorchymyn drafft hwn. Yn benodol:

- staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol;
- gweithwyr ieuenctid cyflogedig heb gymhwyso (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio tuag at gymwysterau);
- athrawon ôl-16 sy'n gweithio i neu ar ran awdurdod lleol;
- staff sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol annibynnol, a elwir hefyd yn sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol.

***Ysgolion Annibynnol***

33. Yn ôl y cyfrifiad ysgolion diweddaraf, a gynhelir bob blwyddyn ym mis Ionawr ac a gaiff ei gwblhau gan bob ysgol yng Nghymru, mae ychydig dros 10,000 o ddisgyblion yn y sector annibynnol yng Nghymru, gyda thua 850 o athrawon a 1,200 o staff cymorth fel cynorthwywyr addysgu. O dan y rheolau presennol, nid yw'n ofynnol i'r staff hyn gofrestru â'r Cyngor, sy'n anghysondeb sylweddol o gymharu ag ysgolion a gynhelir.

34. Mae'r Gorchymyn drafft hwn yn cynnwys gofyniad i staff sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol gofrestru nawr â'r Cyngor. Bydd dau gategori newydd:

   a. Athro neu athrawes mewn ysgol annibynnol, sy'n cynnwys y rhai sy'n cyflawni'r uwch-rôl arwain yn yr ysgol, p'un a oes ganddynt gyfrifoldebau addysgu ai peidio.
   b. Gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol

35. Mae'n ofynnol i bob ysgol annibynnol gofrestru â Llywodraeth Cymru ac er mwyn cofrestru a chadw eu cofrestriad, rhaid iddynt gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 (“y Safonau”). Mae *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*, canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu ym maes addysg, yn gymwys i ysgolion annibynnol hefyd. Caiff ysgolion annibynnol eu harolygu gan Estyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau. Caiff ysgolion arbennig annibynnol eu harolygu bob blwyddyn.

36. Os na fydd ysgol yn cyrraedd un neu fwy o'r safonau ac os ystyrir bod risg o niwed difrifol i les y disgyblion, caiff Gweinidogion Cymru orchymyn bod yr ysgol yn cael ei dileu o'r gofrestr o ysgolion annibynnol, ond mae hawl gan yr ysgol i apelio. Nid oes gan Weinidogion Cymru bwerau i orchymyn i ysgol annibynnol ddiswyddo aelod o staff.

37. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymchwilio i honiadau o gamymddwyn proffesiynol sy'n gysylltiedig â phersonau cofrestredig, sy'n rhoi diogelwch ychwanegol a phwysig i'r gweithlu a phlant a phobl ifanc. Er bod rhai athrawon mewn ysgolion annibynnol wedi cofrestru o'u gwirfodd, nid yw'n ofynnol i athrawon mewn ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor ar hyn o bryd.

38. Yn 2020 cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru adolygiad o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau o dan Adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000, gan ganolbwyntio ar addysg yn y cartref ac ysgolion annibynnol. Argymhellodd yr adolygiad y dylai'r *"Llywodraeth geisio diweddaru'r sefyllfa reoliadol yn sylweddol ynghylch ysgolion annibynnol, a sicrhau bod athrawon wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg."*

39. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Comisiynydd gan gydnabod "pwysigrwydd diweddaru'r sefyllfa rheoleiddio mewn perthynas ag ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod staff wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg".

40. Yn ogystal, ers cyhoeddi'r ymgynghoriad, mae'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi cyhoeddi adroddiad ar ysgolion preswyl. Gwnaeth yr Ymchwiliad sawl argymhelliad ynghylch diogelu plant mewn ysgolion annibynnol. Mae Argymhelliad 7 (bwled 4) yn benodol yn berthnasol i'r Gorchymyn Drafft hwn am ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru:

> *'sicrhau ei bod hi'n ofynnol i bob athro a staff cefnogi dysgu mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.'*

41. Yn ogystal â'r newidiadau rheoleiddiol a gwmpesir gan yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i atgyfnerthu Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 a Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwahardd Cyfranogiad ym maes Rheoli) (Cymru) 2016.

42. Bydd atgyfnerthu'r rheoliadau hyn yn helpu i wella ansawdd addysg a lles, iechyd a diogelwch disgyblion mewn ysgolion annibynnol. Mae hyn yn ychwanegol at wella trefniadau llywodraethu ysgolion annibynnol yng Nghymru.

43. Os na chaiff y Gorchymyn drafft hwn ei wneud, ochr yn ochr â newidiadau i'r rheoliadau ar gyfer Ysgolion Annibynnol a chanllawiau ategol, bydd pryderon ynghylch cadernid mesurau diogelu mewn ysgolion annibynnol a phroffesiynoldeb y rheolwyr yn parhau. Mae'n hollbwysig gwneud newidiadau fel ei bod yn ofynnol i weithlu ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor. Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu dysgwyr ym mhob lleoliad ac mae'r Gorchymyn drafft hwn yn un cam tuag at wneud hynny.

***Penaethiaid mewn ysgolion a gynhelir***

44. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid ysgolion a gynhelir gofrestru os nad ydynt yn darparu'r gwasanaethau penodedig mewn ysgol. Fodd bynnag, gallant gofrestru os ydynt yn dymuno darparu'r gwasanaethau penodedig ac, yn ymarferol, ar hyn o bryd, mae holl benaethiaid ysgolion a gynhelir yn cofrestru yn y categori athro ysgol.

45. Mae angen inni sicrhau bod yr holl fesurau diogelu ar waith, nawr ac yn y dyfodol. Felly, mae'r Gorchymyn drafft yn diweddaru'r diffiniad o "waith penodedig" i sicrhau ei bod yn ofynnol i bob pennaeth gofrestru.

***Gweithwyr ieuenctid***

46. Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2014 a Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 ("Gorchymyn 2016") yn amlinellu pryd y mae'n rhaid i'r rhai sy'n gweithio yn y sector ieuenctid gofrestru â'r Cyngor.

47. Mae adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro (a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2021) yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

    *Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg er mwyn cau'r bylchau mewn meini prawf cofrestru. ... Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau bod yn rhaid i bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg*.

48. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd gweithredu'r argymhelliad hwn yn mynd i'r afael â "*mater diogelu sylfaenol sy'n codi mewn perthynas â gwasanaethau gwaith ieuenctid, gan sicrhau bod yr holl waith ieuenctid yng Nghymru yn digwydd mewn amgylcheddau diogel*"ac y bydd yn "*helpu i wella safonau yn y sector gwaith ieuenctid drwy sicrhau bod pob gweithiwr ieuenctid wedi'i gofrestru i weithio gyda phobl ifanc a'i fod yn gymwys i wneud hynny*."

49. Mater arall, ond cysylltiedig, yw na all gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid gofrestru â'r Cyngor ar hyn o bryd oni bai bod ganddynt gymhwyster a restrir yn Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn 2016. Os bydd sefydliad addysg yn newid teitl cymhwyster, gall hyn effeithio ar allu unigolion i gofrestru â'r Cyngor, gan nad yw'r union gymhwyster a enillwyd gan unigolyn yn cyd-fynd mwyach â'r manylion a restrir yn yr Atodlenni.

## Opsiynau

### *Opsiwn 1: Gwneud dim*

50. Os na chaiff y ddeddfwriaeth hon ei newid, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai diogelwch dysgwyr tra'u bod yng ngofal ymarferwyr addysg mewn lleoliadau penodol fod yn y fantol. Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu dysgwyr ym mhob lleoliad ac mae gofyniad i gofrestru â'r Cyngor yn un cam tuag at wneud hynny. Hefyd, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar yr argymhellion hollbwysig i wella trefniadau diogelu mewn Ysgolion Annibynnol a wnaed gan y Comisiynydd Plant a'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

### *Opsiwn 2: Oedi cyn gwneud y deddfwriaeth*

51. Pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yng ngwanwyn 2022, roedd y cynigion gwreiddiol yn cynnwys trefniadau cofrestru gorfodol ar gyfer y canlynol:

    - y rhai sydd ond yn cyflwyno cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach
    - penaethiaid ac uwch-arweinwyr (gan gynnwys Prif Swyddogion Gweithredol) nad ydynt yn cyflawni rolau addysgu mewn sefydliadau ôl-16 a sefydliadau dysgu seiliedig ar waith
    - ymarferwyr sy'n cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer neu ar ran awdurdod lleol
    - darparwyr dysgu seiliedig ar waith a ariennir yn gyhoeddus ond na chânt eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglenni prentisiaeth.

52. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn drafft hwn ar hyn o bryd, oherwydd rhaid i ni wneud mwy o waith i ddiweddaru'r categorïau ac ni allwn wneud hyn o fewn amserlen y Gorchymyn drafft hwn. Er bod opsiwn i oedi amserlen y ddeddfwriaeth er mwyn cwblhau'r gwaith hwn, rydym yn blaenoriaethu'r newidiadau brys i amddiffyn y gweithlu a phlant mewn ysgolion annibynnol. Felly, nid ystyrir bod hwn yn opsiwn ymarferol.

### *Opsiwn 3: Gwneud y ddeddfwriaeth*

53. Drwy wneud y diwygiadau arfaethedig, gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag argymhellion y Comisiynydd Plant, yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.

## Opsiynau eraill

54. Nid oes unrhyw opsiynau anneddfwriaethol ymarferol eraill i gau'r bylchau diogelu hyn. Roedd sefydlu Cyngor y Gweithlu Addysg yn un o ymrwymiadau'r *Rhaglen Lywodraethu*, er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd addysg yn rhan o gorff proffesiynol sy'n pennu ac yn cynnal safonau proffesiynol. Mae'r newid hwn yn adeiladu ar y ddeddfwriaeth honno ac ni ellir ei gyflawni heb y newidiadau deddfwriaethol hyn.

## Costau a manteision

### *Opsiwn 1: Gwneud dim*

*Costau*

55. Mae'r risgiau sydd ynghlwm wrth anwybyddu'r argymhellion hyn yn arwain at gostau moesegol, costau diogelu, costau cyfreithiol a chostau ariannol uchel. Mae hyn yn arbennig o wir os caiff plentyn neu berson ifanc ei niweidio ac nad oes deddfwriaeth ddigonol ar waith i'w gadw'n ddiogel.

*Manteision*

56. Nid oes unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn.

### *Opsiwn 2: Oedi cyn gwneud y deddfwriaeth*

*Costau*

57. Fel gydag opsiwn 1, mae'r risgiau sydd ynghlwm wrth oedi'r argymhellion hyn ymhellach yn arwain at gostau uchel. Unwaith eto, gall plant neu bobl ifanc gael eu niweidio os nad yw'r ddeddfwriaeth yn eu cadw'n ddiogel.

*Manteision*

58. Byddai mantais ariannol i'r opsiwn hwn. Y cynllun gwreiddiol oedd y byddai'r holl newidiadau y ceisir eu gwneud i'r rheoliadau ar hyn o bryd yn cael eu gwneud ar yr un pryd, gan arbed costau gweinyddol. Fodd bynnag, ni ellir cydbwyso hyn â'r costau moesegol a'r costau diogelu sydd yn y fantol.

### *Opsiwn 3: Gwneud y ddeddfwriaeth*

*Costau*

59. Mae cost i gofrestreion sy'n cydymffurfio â Rheoliadau i gofrestru â'r Cyngor. Yn Rheoliad 4 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017, pennwyd mai'r gost ar gyfer pob categori (fel y nodir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014) yw £46 y flwyddyn.

60. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer y ffioedd, felly mae'r ffioedd sy'n daladwy yn amrywio yn dibynnu ar y categori y mae'n ofynnol i berson gofrestru ar ei gyfer. Y bwriad yw y bydd gan bob un o'r categorïau newydd a diwygiedig ffi o £46 y flwyddyn ac y caiff cymorthdaliadau eu darparu a fydd yn golygu y bydd angen i unigolion dalu ffi o £45 neu £15. Mae'r ail ymgynghoriad ar y Gorchymyn drafft yn gofyn am farn ar ffioedd a phriodoldeb unrhyw gymorthdaliadau. Er bod y Gorchymyn drafft yn nodi bod pob myfyriwr sy'n gweithio tuag at gymhwyster gwaith ieuenctid neu gymorth ieuenctid cydnabyddedig yn gymwys i gofrestru dros dro â'r Cyngor, dim ond myfyrwyr sy'n cael eu talu i wneud gwaith ieuenctid sy'n gorfod cofrestru.

61. Nid yw effeithiau'r Gorchymyn drafft yn golygu bod angen arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ond, yn amlwg, mae costau ychwanegol i unigolion y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru. Bydd effaith hefyd ar fusnesau, elusennau a'r sector gwirfoddol a all benderfynu cyfrannu at y ffioedd hynny ar ran eu cyflogeion neu wirfoddolwyr.

62. Mae dileu cymwysterau Lefel 2 o'r rhestr o gymwysterau cymorth ieuenctid yn y Gorchymyn drafft yn golygu na fydd angen i'r unigolion sy'n meddu ar y cymwysterau hynny gofrestru mwyach â'r Cyngor oni bai eu bod yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch. Yn ôl y data yng Nghofrestr Ymarferwyr Addysg y Cyngor a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2022, roedd 235 o unigolion wedi'u cofrestru a oedd yn meddu ar gymhwyster Lefel 2. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod rhai o'r rhain yn gweithio tuag at gyflawni statws cymwysedig ac y byddant wedi cofrestru ar gyrsiau perthnasol i gyflawni hyn. Mewn achosion o'r fath, o dan y cynigion newydd byddai angen i'r unigolion hyn newid i gofrestriad dros dro hyd nes eu bod yn cyflawni statws cymhwyster llawn. Nid yw'n hysbys faint yn union sydd wedi cofrestru ar gwrs lefel uwch ar hyn o bryd, ond byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i gael darlun gwell o'r sefyllfa.

63. Er y gall hyn arwain at leihad yn nifer y cofrestreion, disgwyliwn, ar y cyfan, y caiff y lleihad hwn ei gydbwyso gan gynnydd yn nifer y cofrestreion yn sgil cyflwyno cofrestriad dros dro i fyfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster gwaith ieuenctid neu gymhwyster gweithwyr cymorth ieuenctid.

64. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnig i ddileu cymwysterau Lefel 2 o'r Gorchymyn, gall y rhai sydd eisoes wedi cofrestru ac sy'n meddu ar gymhwyster Lefel 2 barhau i gofrestru yn y categori gweithiwr cymorth ieuenctid am ddwy flynedd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym. Byddai hyn yn rhoi cyfle i unrhyw unigolion nad ydynt yn gweithio tuag at gymhwyster uwch ar hyn o bryd (h.y., lefel 3 neu uwch) ystyried eu hopsiynau a chofrestru ar gwrs a fyddai'n golygu eu bod yn gymwys i gofrestru dros dro. Byddai hyn, yn ei dro, yn osgoi creu bwlch yn eu gallu i gofrestru â'r Cyngor.

65. Ar hyn o bryd, mae tua 85,000 wedi'u cofrestru â'r Cyngor ac mae disgwyl i'r cynigion hyn arwain at gynnydd o oddeutu 3,000 yn y nifer hwn. Gall y Cyngor ar ei ffurf bresennol ymdopi â'r cofrestreion ychwanegol heb gynyddu ffioedd blynyddol unigolion. Byddai'r cofrestreion ychwanegol hyn a fyddai'n talu rhwng £15 a £45 yn rhoi incwm ychwanegol cyfanredol o £45,000 i £135,000 i'r Cyngor. Mae cost ffioedd i'r unigolyn, ynghyd â'r cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru, yn talu'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â phrosesu cofrestriadau ac, felly, yn niwtral o ran cost. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i sicrhau bod hyn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

66. Ar sail y cynnydd disgwyliedig yn nifer y cofrestreion, amcangyfrifwn y gallai 18 o gofrestreion eraill fod yn rhan o wrandawiadau addasrwydd i ymarfer. Unwaith eto, bydd y ffioedd ychwanegol yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal y gwrandawiadau.

*Manteision*

67. Mae cofrestriadau proffesiynol yn hanfodol er mwyn cynnal hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y gweithlu addysg; yn ogystal â diogelu buddiannau dysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd. Hefyd, mae cofrestriadau proffesiynol yn helpu i gynnal hyder ymhlith y gweithlu ei hun. Mae'r ffi sy'n daladwy yn golygu y gall yr holl ymarferwyr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor fanteisio ar y cymorth a'r gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherthyn i gorff proffesiynol sy'n cynnal safonau proffesiynol. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru.

68. Mae hwn yn un o gyfres o fesurau y bwriedir iddynt helpu i wella safonau addysgol, trefniadau diogelu a chyrhaeddiad pobl Cymru a sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu addysg yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Bydd yn arwain at fwy o synergedd drwy drefniadau rheoleiddio annibynnol, cyson ar gyfer y gweithlu cyfan.

69. Ochr yn ochr â'r newid rheoleiddiol hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o waith i adolygu ac atgyfnerthu'r Rheoliadau Ysgolion Annibynnol a diweddaru canllawiau. Mae'r rhaglen waith hon yn bwysig er mwyn cynyddu mesurau diogelu, gwneud y gweithlu yn fwy proffesiynol ac atgyfnerthu trefniadau llywodraethu mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru.

70. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod ymarferwyr, ni waeth pa lwybr gyrfa y byddant yn ei ddewis, yn parhau i ddatblygu a chyfoethogi eu sgiliau addysgeg a'u sgiliau arwain drwy gyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol. Caiff hyn ei ategu gan safonau newydd, cyfleoedd dysgu proffesiynol, a'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

71. Drwy gyfyngu'r rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a gweithiwr cymorth ieuenctid i'r rhai sy'n rhoi statws cymwysedig llawn, gellid sicrhau uniondeb y rhestr a rhoi eglurder i bawb ynghylch statws y cymwysterau. Yn ogystal, mae dileu'r cymwysterau Lefel 2 o'r rhestr o gymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid yn y Gorchymyn drafft (am nad ydynt yn rhoi statws cymwysedig llawn) yn rhoi cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r llwybr tuag at statws gweithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig llawn ac annog yr unigolion hyn i wneud cynnydd fel rhan o'r yrfa hon. Gallai hyn arwain at fanteision tymor hwy i'r gweithlu gwaith ieuenctid ac, yn y pen draw, wella'r hyn sydd gan waith ieuenctid ei gynnig i bobl ifanc.

***Crynodeb o ganfyddiadau proses yr asesiad effaith rheoleiddiol***

*Y Gymraeg*

72. Ni ddisgwylir unrhyw effaith – cadarnhaol neu negyddol – ar y Gymraeg.

73. Mae Strategaeth y Gymraeg y Cyngor wedi bod ar waith ers iddo gael ei sefydlu yn 2015 ac mae'n cydymffurfio â'r 148 o safonau'r Gymraeg a osododd Comisiynydd y Gymraeg ar y Cyngor mewn perthynas â darparu gwsanaethau, trefniadau gweithredol, llunio polisïau, cadw cofnodion a hyrwyddo.

*Hawliau Plant*

74. Y prif reswm dros wneud y Gorchymyn drafft hwn yw er mwyn cau rhai o'r bylchau sy'n achosi risg i ddiogelwch yn sgil y ffaith bod unigolion yn gweithio yn y sector addysg heb iddynt orfod cofrestru â'r Cyngor nac, felly, brofi eu bod yn addas i gofrestru. Felly, disgwyliwn y caiff y cynigion hyn effaith gadarnhaol ar y plant hynny na fyddent wedi cael eu hamddiffyn fel arall.

*Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*

75. Nid yw'r gofyniad yn y Gorchymyn drafft i greu grwpiau cofrestru ychwanegol yn effeithio'n negyddol ar unrhyw grŵp, ac eithrio unigolion o deuluoedd incwm isel. Y rheswm am hyn yw y byddai unrhyw gost ychwanegol yn faich iddynt. Fodd bynnag, mae'r costau yn isel ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorthdaliadau ar gyfer y costau hyn, yn enwedig i'r aelodau hynny o'r gweithlu addysg sy'n ennill leiaf.

76. Plant a phobl ifanc fydd y grŵp a fydd yn cael y budd mwyaf o'r mesurau diogelu ychwanegol a gaiff eu rhoi ar waith yn sgil y gofyniad i fwy o unigolion gofrestru â'r Cyngor.

77. Mae adroddiad diweddar yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn tynnu sylw at yr angen brys i amddiffyn plant a phobl ifanc ymhellach. Canfu'r adroddiad "*Mewn arolygon, roedd merched o leiaf deirgwaith yn fwy tebygol na bechgyn o ddisgrifio profiadau o gael eu cam-drin yn rhywiol yn blant. Roedd cyfranogwyr anabl ddwywaith yn fwy tebygol o ddisgrifio profiadau o'r fath na chyfranogwyr abl, ac roedd y rheini a oedd yn byw mewn cartref gofal bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn blant. Roedd y rheini a oedd wedi cael eu hesgeuluso yn ystod plentyndod bron bum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn blant na'r rheini nad oeddent wedi cael eu hesgeuluso."* Felly, bydd atgyfnerthu mesurau diogelu ym maes addysg drwy gyflwyno mwy o ofynion i aelodau'r gweithlu addysg gofrestru â'r Cyngor, yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant â nodweddion gwarchodedig penodol.

78. Mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, fel y'u diwygiwyd, yn pennu bod yn rhaid cyhoeddi cod sy'n nodi'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol y disgwylir i bersonau sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor eu cyrraedd.

79. Mae'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol hwn yn nodi egwyddorion allweddol o ran ymddygiad da ac ymarfer proffesiynol y mae disgwyl i gofrestreion y Cyngor eu dilyn, a'i fwriad yw llywio, cefnogi ac arwain pawb yn eu hymddygiad a'u hymarfer o ddydd i ddydd. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i rieni, y cyhoedd, a rhanddeiliaid sy'n ymwneud ag addysg dysgwyr a phobl ifanc yng Nghymru, a dysgwyr a phobl ifanc eu hunain, am y safonau y gallant eu disgwyl gan gofrestreion. Mae'r Cod yn cynnwys gofyniad i gofrestreion ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Ochr yn ochr â'r ymrwymiad hwn, mae dyletswydd gofal i sicrhau diogelwch a llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol ac addysgol dysgwyr a phobl ifanc.

*Preifatrwydd*

80. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn prosesu unrhyw ddata ychwanegol o ganlyniad i'r Gorchymyn Drafft. Y Cyngor yw'r rheolydd data ac mae'n cydymffurfio'n llawn â phob deddfwriaeth diogelu data.

*Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder*

81. Er nad oes Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi'i gynnal, ni nodwyd unrhyw effeithiau wrth ystyried y Gorchymyn drafft hwn.

*Crynodeb*

82. Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i symud ymlaen ag Opsiwn 3 ac maent yn llunio'r ddeddfwriaeth.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

83. Nid oes unrhyw oblygiadau i'r farchnad yn sgil y Gorchymyn drafft hwn. Er y bydd effaith ariannol ar fusnesau, elusennau a'r sector gwirfoddol, nid oes effaith o safbwynt cystadleuaeth.

**Adolygiad ar ôl gweithredu**

84. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Cyngor i fonitro trefniadau cofrestru'r categorïau newydd a diwygiedig ar ôl dyddiad dod i rym y Gorchymyn hwn. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r ffi ofynnol o fewn y tair i bum mlynedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau y caiff unrhyw ffioedd eu haddasu er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn talu costau ei wasanaeth yn llawn.

85. Os ystyrir ei bod yn briodol addasu'r ffi, cynhelir ymgynghoriad llawn er mwyn gwneud newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth.

86. Mae asesiad effaith integredig llawn wedi cael ei baratoi a bydd ar gael yn ystod yr ail ymgynghoriad ar y Gorchymyn drafft. Byddwn yn adolygu hyn drwy gydol y cam gweithredu a thros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau penodol yn cael eu lliniaru.